

Eglwys sy'n gwrando

“Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd.” (adn. 13)

Beth am ddarllen Ioan 16:1–16 ac yna myfyrio

Tybed a fydd y rhai sydd yn perthyn i'r Eglwys yn ein canrif ni yn dysgu addoli Duw gyda'i gilydd, a hefyd yn gwrando ar lais yr Ysbryd, gan gymryd eu harweiniad oddi wrtho ef. Os na fydd i'r Eglwys wneud hyn, yna fe fydd llawer o gamgymeriadau y gorffennol yn cael eu hailadrodd. Wrth edrych ar yr Eglwys heddiw, mae'n debyg fod yna lawer gormod o bobl yn dibynnu ar ddoethineb dynol, heb wrando ar lais yr Ysbryd. Nid dweud yr ydym fod yr Ysbryd yn anwybyddu ein profiad a'n synnwyr cyffredin, ond rhaid pwysleisio fod y llwybr y mae'r Eglwys am ei gymryd yn un sydd mor bwysig fel bod yn rhaid wrth arweiniad clir, er mwyn osgoi cynllwynion y Diafol.

Does dim yn fwy ffrwythlon ac yn fwy grymus nag eglwys sydd yn dod ynghyd i wrando ar yr Arglwydd ac yna, wedi gwrando, yn codi ac yn dweud: “Yr ydym wedi clywed llais yr Arglwydd. Yn awr, yr ydym am weithio.” Yr ydym yn sefyll rhwng dau gyfnod – un yn marw, ac un arall heb ei eni eto. Nid yw'n debygol y bydd pobl y byd yn gwrando arnom ni os nad ydym ni, yn gwrando ar Dduw. Fe fyddant yn siŵr o synhwyro, os yw ein geiriau yn eiriau sydd yn ffrwyth ein dychymyg yn hytrach nag yn eiriau Duw.

Faint o eglwysi sydd yn dod at ei gilydd i ymptydio ac i weddio, er mwyn darganfod beth yw cynlluniau Duw ar eu cyfer? Er bod llawer yn gwneud hyn, nid wyf i ond wedi cyfarfod ag un – eglwys sydd yn cyfarfod bob tri mis i ymptydio a gweddio, gan wrando ar yr hyn sydd gan yr Ysbryd i'w ddweud. Mae'r eglwys yma yn barod ar gyfer pob amgylchiad, oherwydd mae ei haelodau yn gwrando ar lais yr Ysbryd. Mae gan Dduw gynlluniau ar gyfer pob eglwys, ac mae llwyddiant yr Eglwys yn dibynnu ar weithredu cynlluniau Duw, nid ein cynlluniau ni.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Barn. 20:24–28; Esra 8:21–23; Dan. 9:1–27; Joel 2:12–29

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddaeth o flaen gweledigaeth Daniel?
2. Sut mae ymptydio yn ein cynorthwyo i glywed yr Ysbryd yn gliriach?

Gweddi

O Dduw, dwg ni i'r man lle yr ydym yn dibynnu, nid ar ein doethineb a'n harbenigedd ni, ond ar gyfeiriad a doethineb yr Ysbryd. Yr ydym yn ymwybodol nad wyt yn anwybyddu ein gallu, ond cynorthwya ni i beidio dibynnu ar ein gallu ni, ond ar dy allu di ynom ni. Amen.